

**Adrannau 14(7) a 15(7) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ac Adran 2 Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012.**

DYMA HYSBYSIAD O FWRIAD bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) yn unol ag adran 14(7) a 15(7) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 (y Ddeddf) ac adran 120 Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn cynnig mabwysiadu is-ddeddfau (*ar gyfer Aciwbigo, Tatŵio, Lliwio Croen yn lled barhaol, tyllu cosmetig ac Electrolysis*) at ddibenion sicrhau bod mangreoedd sydd wedi'u cofrestru o dan Adran 14(1) neu 15(1) neu'r ddwy Adran o'r Ddeddf a gosodiadau/cyfarpar yn y mangreoedd hynny a'r personau sydd wedi'u cofrestru o dan adrannau 14(1) neu 15(1) neu'r ddwy Adran o'r Ddeddf a phersonau sy'n eu cynorthwyo a sicrhau glanhau, i'r graddau y bo'n briodol, ddiheintio teclynnau, deunyddiau ac offer a ddefnyddir mewn cysylltiad â gweithdrefnau aciwbigo, tatŵio, tyllu clustiau neu electrolysis. Caiff yr is-ddeddfau hyn eu gwneud o dan bwerau a roddwyd o dan Adran 2, Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012

Pe bai'r Cyngor yn mabwysiadu'r Is-ddeddfau model hyn, byddai'n bosibl i'r Cyngor erlyn ymarferwyr sydd hebgydymffurfio a'r rheiny heb eu cofrestru. O dderbyn collfarn, efallai byddai'r Llys yn gosod dirwy a / neu atal neu ganslo cofrestriad y person. Efallai byddai'r Llys hefyd yn atal neu ganslo cofrestriad ei fangre fel na châi'r ymarferydd weithredu o'r fangre honno.

Pe bai'r Cyngor yn penderfynu mabwysiadu'r Is-ddeddfau Model, pan ddeuai'r is-ddeddfau arfaethedig i rym, byddai'r is-ddeddfau ynghylch tyllu clustiau, tatŵio, aciwbigo ac electrolysis sydd mewn grym ar hyn o bryd yn y Fwrdeistref yn peidio.

Caiff yr is-ddeddfau arfaethedig eu gweld ar [www.gov.wales/docs/phhs/publications/110705modelcy.doc](http://www.gov.wales/docs/phhs/publications/110705modelcy.doc) neu bydd copi ar gael ar gais o'r cyfeiriad isod.

Anfonwch unrhyw sylwadau a fo gyda chi parthed y cynnig ar bapur at y sawl sydd wedi'i enwi isod cyn pen 21 o ddiwrnodau o gyhoeddi'r Hysbysiad hwn.

Louise Davies

Pennaeth Materion Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach, a Diogelwch y Gymuned

Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Tŷ Elái, Dinas Isaf, CF40 1NY

DYDDIAD 1 Chwefror 2016